



O Gwmpas 2019

yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
a chefn gwlad Sir Ddinbych



Camlas Llangollen



Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwyd, Bangor and Denbigh
Bwrdd a Bwrddau Ardal Eiddorfa
Local Authorities Partnership

Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council



Awyr dywyll. Diwrnodau golau. Teithiau cerdded byr. Teithiau cerdded hir. Mynyddoedd. Dyffrynnoedd. Afonydd. Chwareli. Abatai. Tyrrau. Adar. Hanes. Gerddi. Trychfilod ac ystlumod. Rhwydo mewn pyllau. Beicio. Archwilio. Darganfod. Mwynhau.

Mae gennym ddigwyddiadau ar gyfer pob tymor, ar gyfer pawb.

Mae gweithgareddau ar gael i bob oed a gallu felly dewch i fwynhau #blwyddynoddarganfod

I weld pa ddigwyddiadau y gallwch eu harchebu: ewch i wefan Eventbrite www.eventbrite.co.uk chwiliwch am AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy / Clwydian Range & Dee Valley AONB

Cysylltwch â ni:-

E-bost: loggerheadscountrypark@denbighshire.gov.uk clwydianrange@denbighshire.gov.uk

Rhif ffôn: 01824 712757

**Canolfan Ymwelwyr, Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych
Parc Gwledig Loggerheads Sir Ddinbych CH7 5LH**

Ar agor bob dydd

10:00 - 16:00 yn ystod misoedd y gaeaf 10:00 - 17:00 yn ystod misoedd yr haf

Ewch i weld ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol



- Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
- AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Parc Gwledig Loggerheads
- Ein Tirlun Darluniadwy
- Beicio Gogledd Cymru
- Môr-wenoliaid Gogledd Cymru

www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk www.gwasanaethcefngwladsirddinbych.org.uk





#chiachei

Mae cefn gwlad yn gallu bod yn ddiwrnod gwych allan gyda'ch ci, byddwch yn gyfrifol os gwelwch yn dda. Cadwch eich ci ar dennyn neu o dan reolaeth agos, codwch faw eich ci a chael gwared ohono yn gyfrifol.

Symbolau Teithiau Tywys



Hawdd taith gerdded fer ar lwybr wyneb caled neu weithgarwch teuluol hygrych.

Cymedrol rhai darnau serth ac arwynebau rhydd.

Anodd hir ac egnïol, anwastad, tir llethrog

Help **Cyfeirnod Grid** – www.gridref.org.uk
Rhowch y cyfeirnod grid yn y blwch chwilio, ac fe gewch fap.

Ein Tirlun Darluniadwy

Ers y 1700au, mae pobl wedi bod ar siwrneiau ysbrydoledig drwy Ddyffryn Dyfrdwy, ar hyd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte, ffordd A5 Telford, Rheilffordd Llangollen a'r Afon Dyfrdwy. Daethant i fwynhau ac ymgysylltu â'r tirlun unigryw ac roedd nifer yn teimlo cymhelliant i drosi'r tirlun hardd i mewn i gelf. Heddiw mae pobl yn dod i ddilyn ôl eu traed, ond mae'r tirlun hwn dan bwysau cynyddol wrth i nifer fawr o ymwelwyr gael eu denu i safleoedd sy'n amgylcheddol fregus.

Nod Prosiect **Ein Tirlun Darluniadwy** yw amddiffyn yr ardal unigryw hon trwy;


- **Warchod golygfeydd, treftadaeth a chynefinoedd**
- **Gwella mynediad**
- **Ennyn diddordeb cymunedau yn ein tirluniau arbennig**
- **Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill**

Os hoffech wybod mwy am y prosiect Ein Tirlun Darluniadwy, cysylltwch â our.picturesque.landscape@denbighshire.gov.uk **01824 706163**



**CRONFA
DREFTADAETH
HERITAGE
FUND**

Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ar genhadaeth i warchod ein Hawyr Dywyll.



Pam?

Bywyd gwyllt
– mae'r anifeiliaid
a'r planhigion yn ein
hecosystem yn dibynnu
ar y nos i gael rythm
naturiol.

Iechyd – Rydym
i gyd yn gwybod bod
angen haul bod
i gadw'n iach, ond
mae angen tywyllwch
arnom hefyd. Gall golau
artiffisial gyfrannu at
ddiffyg cwsg, canser,
clefyd siwgr a
llawer mwy.

Ynni – trwy
warchod awyr y nos
byddwn hefyd yn
gostwng
lefelau gwastraff
ynni.



Eleni rydym wedi ymuno â Technique Quest i greu
rhaglen o ddigwyddiadau rhyfeddol ar eich cyfer.
Beth am ddod draw, chwiliwch am y symbol hwn
a chofiwch archebu lle!

Dydd Iau 28 Mawrth
10:00 Taith Gerdded Chwarel
Llanarmon

O'r llyfr 24 Walks in the Clwydian Hills and Dee Valley AONB
Cyfarfod: yn yr hen chwarel ar
B5430 SJ188579
Archebu: 01352 715723
ron.rambler2@gmail.com



Ebrill-Mai
Llwybr y Gwanwyn ym Mhlas
Newydd £2.50 y pen

Crwydrwch yr ardd trwy ateb
y cwestiynau a chwblhau'r
gweithgareddau.
Gwobr am ei gwblhau.



6-26 Ebrill
Llwybr y Pasg Parc Gwledig
Loggerheads Cwblhewch Llwybr
y Pasg o amgylch y parc i ennill
gwobr. £2.50 y plentyn, dim angen
archebu.



Dydd Mawrth 2 Ebrill
16:00-17:30
Gwyllt y Glyn Gwlân Gwych
Plas Newydd, Llangollen, LL20 8AW
Cyflwynwch eich plentyn i fywyd
gwyllt eto gyda'n gweithgareddau
natur. Y cyfan sydd ei angen yw
dillad awyr agored a welintons.
Rhieni'n aros i chwarae.



Dydd Mercher 10 Ebrill
10:00-12:00 Taith Gerdded Fer
ar Fynydd Llandysilio
Cyfarfod gyferbyn â chaffi
Ponderosa LL20 8DR
Ymunwch â ni am daith gerdded
hamddenol i weld sut mae'r
mynydd ar ôl tân mawr 2018 ac i
chwilio am y gylfinir sy'n cyrraedd i
baru.



Dydd Iau 11 Ebrill

10:00-13:00

Clychau'r Gog yng Nghoed Bell

Cyfarfod: mynedfa Mynwent Coed

Bell, Gronant. Ychydig o le parcio

Cyfeirnod grid: SJ 088 833

Taith gerdded gylch o 5 milltir trwy'r

goedwig hynafol i weld y carpedi

hardd o glychau'r gog brodorol.

Cewch fwynhau golygfeydd

arbennig o'r arfordir.



Dydd Sadwrn 13 Ebrill

**12:00-15:00 Ffair y Gwanwyn
ym Mhlas Newydd**

Llangollen, LL20 8AW

Crwydrwch y llwybrau newydd.

Mwynhewch grefftau tymhorol, gan
gynnwys ffeltio gwlân. Cewch hefyd
gyfarfod yrŵyn.



Dydd Iau 18 Ebrill

10:00

**Crwydro Llyn Alwen gyda'r
Ceidwad Lleol**

Cyfarfod: maes parcio'r Alwen.

Cyfeirnod grid 956530

Tynnu sylw at bethau diddorol a
gwybodaeth am y bywyd gwyllt
lleol. I'w archebu.



Dydd Sadwrn 20 Ebrill

11:00-15:00

**Llwybr y Pasg yng Nghoed
Nercwys**

Cwblhewch Llwybr y Pasg o

amgylch Coed Nercwys i ennill

gwobr! £2 y pen i gymryd rhan.

Dim angen archebu.



Dydd Iau 25 Ebrill

10.30-12.30 & 13:00-15:00

Ar Gamera

Carchar Rhuthun, Rhuthun

Dewch i roi eich hun ar boster

'yn eisiau'. Daliwch eiliad eich

carcharu mewn lluniau a phrofwch

fywydau'r carcharorion. Pris

mynediad arferol. £1 ychwanegol

yn ddewisol am bob poster.



Dydd Iau 25 Ebrill

10:00-12:00 & 13:00-15:00

**Diwrnod Darganfod Amffibiad
ac Ymlusgiaid**

Parc Gwledig Loggerheads

Diwrnod i'r teulu, sesiynau yn y
bore a'r pawns.

Dysgwch am amffibiaid ac

ymlusgiaid. Rhowch gynnig

ar rwydo mewn pyllau gydag

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd

Cymru a'r Ymddiriedolaeth

Gwarchod Amffibiaid ac

Ymlusgiaid. Amy.Green@

northwaleswildlifetrust.org.uk

07961698437 I'w archebu.



Dydd Iau 2 Mai 10:00-13:00
Llwybr Milltiroedd Cymunedol
Sun Bank

Cyfarfod: y tu allan i'r Ganolfan
Groeso, Heol y Castell, Llangollen
Cyfeirnod grid 215421
Taith dywys. 4.5 milltir o amgylch
cefn gwlad Llangollen gan ymweld
â Chastell Dinas Brân (dringfa serth
i'r castell).



4-6 Mai
Gŵyl Gerdded
Llangollen

Mae pob taith o fewn AHNE a
Safle Treftadaeth y Byd UNESCO
Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.
Gŵyl Gerdded Llangollen. Dewch o
hyd i ni ar Facebook.



Dydd Mawrth 7 Mai
16:00-17:30

Gwylt y Glyn

Creaduriaid Hynod
Plas Newydd, Llangollen, LL20
8AW Cyflwynwch eich plentyn
i fywyd gwylt eto gyda'n
gweithgareddau natur. Y cyfan
sydd ei angen yw dillad awyr
agored a welintons.
Rhieni'n aros i chwarae.



Dydd Mercher 8 Mai
10:00-12:00

Taith gerdded fer Bwlch y

Groes Cyfarfod: cilfan am y
gorllewin, Glyndyfrdwy, LL21 9HN
Darganfyddwch sut rydyn ni'n
helpu i warchod niferoedd
gostyngol y gylfinir.



Dydd Sadwrn 11 Mai
2il Rownd Cyfres Beicio
Mynydd Go Race

Marsh Tracks, Marsh Road, y Rhyl,
LL18 2AD

Mae'r gyfres yn gyfle gwych i
rai ifanc roi cynnig ar rasio beic
mynydd lle maen nhw'n cael
pwyntiau am eu safle wrth orffen



ac am gwblhau gwahanol heriau
sgiliau. Gallwch archebu. £.
Gallwch gofrestru ar y diwrnod.
<https://www.britishcycling.org.uk/events/details/198339/North-Wales-Go-Ride-Race-MTB-10th-Anniversary-Rd-2>

Dydd Sul 12 Mai **Taith Dywys Abaty Glyn y** **Groes a Philer Eliseg**

Cyfarfod ym maes parcio Maes
Llandysilio Cyfeirnod grid 199435
Ymunwch â Chyfeillion Bryniau
Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i grwydro
Abaty Glyn y Groes a Philer Eliseg
o'r 9fed ganrif, gan syllu ar ran o
Safle Treftadaeth y Byd a diwydiant
a oedd yn gysylltiedig â'r camlesi.



Cyfeillion
Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy

Dydd Mawrth 14 Mai **10:00-13:00 Darganfod Hillside** **ym Mhrestatyn**

Cyfarfod: ym maes parcio golygfan
Gwaenysgor SJ 075 819.
Ymunwch â Cheidwad yr AHNE
am daith gerdded i ganfod bywyd
gwyllt a chynefinoedd arbennig
Hillside ym Mhrestatyn.
Gallwch archebu.



Dydd Gwener 17 – dydd
Sul 19 Mai Gŵyl Gerdded
Prestatyn a Bryniau Clwyd
www.prestatynwalkingfestival.co.uk
Rhaid archebu ymlaen llaw.
01745 857185

Dydd Iau 16 Mai **19.30-22.00 Taith gerdded** **gyda'r nos at Dŵr Biddulph**

Cyfarfod: maes parcio Heol y
Farchnad, Llangollen LL20 8RB
Ymunwch â ni am dro hamddenol
o 4 milltir i glywed y gylfinir a gweld
yr haul yn machlud a golygfeydd
gwyd o Ddyffryn Dyfrdwy o
adfeilion Tŵr Biddulph.
Mae angen archebu lle.



Dydd Gwener 24 Mai **10:00 Darganfod Palmant Calch** **Bryn Alun**

Cyfarfod: tu allan i Eglwys
Llanferres, SJ188605
Archebu: 01352 756183
nhogilvie@hotmail.com



Cyfeillion
Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy

Wythnos Wirfoddoli

1-7 Mehefin

Mae'n cael ei chynnal 1-7 Mehefin bob blwyddyn ac mae'n gyfle i ddathlu gwirfoddoli a'i holl amrywiaeth.



Dydd Sadwrn 25 Mai
11:00-12:00

Helpa Drychfilod!

Nantclwyd y Dre, Rhuthun
Helpa natur dywysedig o amgylch
Gardd yr Arglwydd er mwyn gweld
a dysgu am y trychfilod diddorol
sy'n byw yma. Addas i bob oedran.
Rhaid i blant fod yng nghwmni
oedolyn. Wedi'i gynnwys yn y pris
mynediad.



Dydd Iau 30 Mai
10:30-12:30 a 13:00-15:30

Alltudio Carchar Rhuthun,
Rhuthun 01824 706868
sirddinbych.gov.uk/carcharrhuthun.
Dysgwch am fywydau'r rheiny a
gafodd eu halltudio i Awstralia.
Cewch glywed straeon y
carcharorion a anfonwyd o Garchar
Rhuthun. Addas i bob oedran.
Wedi'i gynnwys yn y pris mynediad.



Dydd Mercher 29 Mai
11:00-15:00 Crefftau Awyr
Dywyll Parc Gwledig Loggerheads
Crefftau Awyr Dywyll dros hanner
tymor gyda Techniquet yn yr Oriel.
Croeso i'r teulu cyfan. Nid oes
angen archebu, ond efallai y bydd
hi'n brysur.



Dydd Gwener 31 Mai
19:30-21:30 Nantglyn gyda'r
Nos Cyfarfod: Maes Lliwen,
Nantglyn, Dinbych, LL16 5PH
Ymunwch â ni am daith gerdded
fer i ddarganfod bywyd gwyllt y nos
gan ddefnyddio trap gwyfynod a
synwryddion ystlumod.



Wythnos Wirfoddoli

Dydd Sadwrn 1-7 Mehefin 09:00-16:00

'Geophys' Grŵp Archeoleg Bryniau Clwyd

Cyfarfod ym maes parcio Moel Arthur, Cyfeirnod
Grid SJ 146 657 www.cragnorthwales.wordpress.com/
Archebu: pat.daley@tiscali.co.uk



Wythnos Natur 1-9 Mehefin

Mae Wythnos Natur Cymru'n ddigwyddiad cenedlaethol blynyddol wythnos o hyd sy'n canolbwyntio ar fywyd gwyllt Cymru. Mae gwahoddiad i bobl ar draws Cymru gymryd rhan mewn digwyddiadau bywyd gwyllt. Ymunwch â'n dathliadau ni i ddarganfod pa mor hyfryd yw bywyd gwyllt Cymru.



Mehefin - Awst **Llwybr yr Haf** **ym Mhlas Newydd**

Dysgwch am flwyddyn arferol i Ladis Llangollen trwy ddod o hyd i gliwiau ac ateb cwestiynau.

Gwobr ar ôl ei gwblhau.

£2.50 yr un



1-9 Mehefin **Gŵyl Gerdded Wrecsam**

Dewch i fwynhau wythnos o deithiau cerdded am ddim yn gweld harddwch a hanes Gogledd-ddwyrain Cymru a Dyffryn Dyfrdwy.
www.walksinwrexham.com



Wythnos Natur

Dydd Mawrth 4 Mehefin

16:00-17:30

Gwyllt y Glyn Cyffro yn y Coed

Plas Newydd, Llangollen, LL20 8AW
Cyflwynwch eich plentyn i fywyd gwyllt eto gyda'n gweithgareddau natur. Y cyfan sydd ei angen yw dillad awyr agored a welintons. Rhieni'n aros i chwarae.



Dydd Mercher 5 Mehefin

20:00-22:30

Bywyd y Nos a'r Awyr Dywyll

Cyfarfod: Maes parcio Coed Moel
Famau SJ 174 613

Taith gerdded gyda'r hwyr i weld bywyd gwyllt nosol sy'n byw yn y Parc Gwledig. Chwiliwch am y Troellwyr dirgel

Dewch â chwistrell piwioid.

Rhaid archebu lle.



4 Mehefin

09:30-16:00

Cystadleuaeth walio

Coparleni

Profwch eich sgiliau – ai chi yw'r waliwr gwirfoddol gorau? Cysylltwch â Ros am ragor o fanylion ynghylch hyn a digwyddiadau hyfforddi eraill.
ros.stockdale@sirddinbych.gov.uk



ANTURIAETHAU BYCHAIN AR ÔL YSGOL



6, 13, 20, 27 Mehefin

Dydd Iau 15:45 – 17:00

Parc Gwledig Loggerheads

Dewch i ddarganfod a dysgu am y byd naturiol gyda'r Ceidwad ym Mharc Gwledig Loggerheads mewn pedair sesiwn fer. Rhieni'n aros i chwarae.



Dydd Gwener 7 Mehefin

10:30 - 12:00

Taith Gerdded Nordig Trwyn Horton a'r Promenâd

Cyfarfod: tu allan i The Hub, Harbwr y Rhyl LL18 5AX
Ymunwch â ni am daith gerdded Nordig ar hyd llwybr godidog yr arfordir. Yn ôl i'r Hub yn y Rhyl wedyn. Bydd polion a hyfforddiant ar gael.



Wythnos Natur

Dydd Iau 6 Mehefin 20:45-23:00

Troellwyr Nantyr

Ymunwch â ni am daith gerdded hamddenol o amgylch Coedwig Nantyr wrth i ni chwilio am y troellwr dirgel. Cyfarfod: Maes parcio Heol y Farchnad, Llangollen am reid i fyny. Rhaid archebu lle



Wythnos Natur

Dydd Gwener 7 Mehefin

21:00-23:30 Noson Ystlumod

Nantclwyd y Dre Cyfarfod:

Nantclwyd y Dre, Stryd y Castell, Rhuthun, LL15 1DP. Ymunwch â ni am noson o fonitro ystlumod yn yr hen dŷ tref hanesyddol, Nantclwyd y Dre! Byddwn yn monitro clwyd o ystlumod mwyaf prin Prydain, yr ystlum pedol lleiaf. Dyma gyfle gwych i weld a chlywed yr ystlumod sydd wedi bod yn dychwelyd i Nantclwyd y Dre bob blwyddyn i eni a magu eu hepil. Gwisgwch yn gynnes.




Wythnos Natur

Dydd Sul 9 Mehefin 10:00-13:00

Darganfod Gwiwerod Coch yng Nghoed Clocaenog

Man cyfarfod i'w gadarnhau'n nes at y dyddiad. Ymunwch â ni yn y bore ar daith gerdded yng Nghoed Clocaenog gyda gwirfoddolwyr o Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru. Dewch i weld y gwaith anhygoel mae'r elusen wedi'i wneud i helpu i achub niferoedd y gwiwerod coch prin o ymyl y dibyn. Rhaid gwisgo esgidiau cerdded a dillad sy'n addas ar gyfer y tywydd. Mae croeso i chi gyfrannu ar y diwrnod. Gallwch archebu: 01824 712 775 / 07787 741763



Dydd Sadwrn 8 Mehefin

14:00-16:00 Ffair Haf Llangollen ym Mhlas Newydd

Mae rhywbeth i bawb yn y ffair haf gymunedol hon.

Wythnos Natur

Dydd Sadwrn 8 Mehefin

10:00-17:00 Diwrnod Natur yn Nantclwyd y Dre

Chwilio am rywbeth gwych i'w wneud? O adar, pryfed ac ystlumod i goedwigoedd a dolydd llawn blodau gwyllt, dewch i gyfarfod y rhai sy'n gofalu am ein bywyd gwyllt lleol ac am ddiwrnod llawn gweithgareddau a hwyl i'r teulu! Digwyddiad am ddim.

Dydd Mercher 12 Mehefin

10:00-12:00

Taith Gerdded Fer Eglwyseg

Cyfarfod ym maes parcio Pafiliwn Llangollen. LL20 8SW

Dringfa raddol i'r rhos i weld y gylfinir ac ymwelwyr eraill yr haf.





Dydd Iau 13 Mehefin
10:00-13:00 Llwybr Milltiroedd
Cymunedol Tremeirchion
Cyfarfod: y tu allan i eglwys
Tremeirchion GR 082731 Taith
dywys. 5.5 milltir o amgylch
Tremeirchion gan gerdded peth o
Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a
thrw y warchodfa Ymddiriedolaeth
Natur Gogledd Cymru,
Gwarchodfa'r Graig.



Dydd Mawrth 2 Gorffennaf
16:00-17:30

Gwylt y Glyn

Gwenyn Gwych

Plas Newydd, Llangollen
Cyflwynwch eich plentyn i fywyd
gwylt eto gyda'n gweithgareddau
natur. Y cyfan sydd ei angen yw
dillad awyr agored a welintons.
Rhieni'n aros i chwarae.



10 Peth i'w Wneud yn Nyffryn Dyfrdwy

Her hafaid i grwydro Dyffryn
Dyfrdwy a dathlu 10 mlwyddiant
dynodi'r gamlas yn Safle
Treftadaeth y Byd. Lawrlwythwch
y rhestr o heriau ar www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk neu godi taflen.





Dydd Iau 13 Mehefin Sgwrs Hanes yr Ardd, Taith a Blasu 17:00-20:00

Plas Newydd, Llangollen
Ymunwch â ni am daith ar noson
o haf gyda'n garddwr, a sgwrs am
hanes yr ardd i ddilyn a swper yn y
caffi yn seiliedig ar ryseitiau'r Ladis.
£15 y pen. Rhaid talu ymlaen llaw
ac nid oes modd cael ad-daliad.
Rhaid archebu lle
Plas Newydd 01978 862834



Dydd Sul, 30 Mehefin 11:00 - 16:00 Y Cynllun Gerddi Cenedlaethol yng Ngardd yr Arglwydd

Nantclwyd y Dre, Stryd y Castell,
Rhuthun
01824 709822 neu 01824 706868
Mae tref ganoloesol hyfryd
Rhuthun yn cynnig 4 gardd
wahanol, gan gynnwys Nantclwyd
y Dre a Gardd yr Arglwydd, sydd
newydd gael ei hadfer ac sydd
werth ei gweld.
Gellir prynu lluniaeth, bydd elw yn
mynd at Gyfeillion Nant Clwyd y
Dre.
I gael rhagor o fanylion am y
diwrnod a sut i brynu tocynnau
gweler www.ngs.co.uk



Dydd Sadwrn 13 Gorffennaf - dydd Gwener 9 Awst Cloddiad 2019 Grŵp Archeoleg Bryniau Clwyd

09:00-16:00
Cyfarfod: maes parcio Moel Arthur
Cyfeirnod grid SJ 146 657.
<https://cragnorthwales.wordpress.com/>
Cysylltwch â pat.daley@tiscali.co.uk

I archebu - 01824 712757 / loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk

Dydd Mawrth Gorffennaf 2-7

Eisteddfod Gerddorol

Ryngwladol Llangollen Dewch

i'n gweld ni yn yr Eisteddfod.

Hwyl Gwyliâu'r Haf

Oriau agor arferol (gweler tudalen 31) Nantclwyd y Dre, Rhuthun. Llu o weithgareddau a chrefftau arbennig i gadw'r teulu i gyd yn brysur yn ystod gwyliâu'r haf. Addas i bob oedran. Pob dim wedi'i gynnwys yn y pris mynediad.

Dydd Llun 15 Gorffennaf

14:00-15:00

Cwrdd â'r Garddwyr

Nantclwyd y Dre. Beth fyddai gardd heb ei garddwyr? Dewch i gyfarfod y rhai sy'n gweithio'n galed i gadw gerddi Nantclwyd y Dre'n iach ac yn ffynnu.

Wedi'i gynnwys yn y pris mynediad.

Dydd Mercher 17 Gorffennaf

10:00-13:00

Llwybr Archeolegol Llyn Brenig

Cyfarfod: Canolfan Ymwelwyr Llyn Brenig. LL21 9TT Dewch i weld y gladdfa o'r Oes Efydd a mwynhau'r golygfeydd arbennig.



Dydd Sadwrn 20 Gorffennaf

10:30-16:00 Diwrnod Hwyl i'r Teulu yng Nghoed Moel

Famau Maes parcio Coed Moel Famau SJ 174 613 Diwrnod o weithgareddau hwyllog! Bydd cyfle i rwydo yn y nant, crefftau i blant, adeiladu cuddfan, teithiau tywys, arddangosfeydd, gwybodaeth a chynnyrch bwyd lleol. £2 i barcio car.



22 Gorffennaf - 2 Medi
Llwybr yr Haf
Parc Gwledig Loggerheads

Cwblhewch lwybr yr haf o amgylch y parc i ennill gwobr. £2.50 y plentyn, dim angen archebu.



Gorffennaf ac Awst
Hwyl Gwyliau'r Haf yng
Ngharchar Rhuthun

Bob dydd yn ystod amseroedd agor. Llauer o weithgareddau a chrefftau i gadw'r teulu i gyd yn brysur yn ystod gwyliau'r haf. Addas ar gyfer pob oedran, dim rhaid archebu o flaen llaw. Wedi'i gynnwys yn y pris mynediad.

Dydd Sul 21 Gorffennaf
13:00-16:00

Y Darlun Mawr ym Mhlas
Newydd, Llangollen

Galwch heibio i fod yn rhan o ddigwyddiad tynnu llun mawr yn harddwch Plas Newydd. £2.50 yr un.

Dydd Iau 25 Gorffennaf
10:00-12:00

Taith Dywys Beicio Mynydd

Cyfarfod: Coed Nercwys – Maes parcio'r gogledd SJ 218592
Ymunwch â Cheidwad yr AHNE am daith dywys gylchol 5 milltir o hyd ar feic mynydd o amgylch llwybr Coed Nercwys. Rhaid gwisgo helmed a menig.

Dydd Iau 25 Gorffennaf
10:00-12:30 a 13:00-15:30

Rwyt Ti'n Garcharor

Carchar Rhuthun, Rhuthun
Cyfle i gwrdd â wardeiniaid carchar oes Fictoria a dysgu am y cosbau y byddech yn eu hwynebu fel carcharor yng Ngharchar Rhuthun. Addas ar gyfer pob oedran, dim rhaid archebu o flaen llaw. Wedi'i gynnwys yn y pris mynediad.



I archebu - 01824 712757 /
loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk

Dydd Gwener 26 - dydd Sul 28 **Gorffennaf MTB Meetup**

One Planet Adventure
Coed Llandegla.

Dyma'r digwyddiad mwyaf i feicwyr mynydd ddod ynghyd am ddim i gymdeithasu, ac mae'n dychwelyd i Landegla am y 5ed flwyddyn yn olynol. Mae rhywbeth at ddant pawb! Dilynwch @MTBMeetupUK i gael y diweddaraf.

Mwy ar <http://mtbmeetup.uk/>

2 Awst

15:00-17:00 Dydd Gwener **Taith Dywys Beicio Mynydd**

Cyfarfod: Maes parcio Golygfan Cilcain SJ 17059 65218.

Ymunwch â Cheidwad yr AHNE am daith dywys beicio mynydd lefel ganolig 6 milltir o hyd o amgylch pentref Cilcain ac i fyny i Barc Gwledig Moel Famau i weld y golygfeydd arbennig. Rhaid gwisgo helmed a menig.

Dydd Mawrth 6 Awst

11:00-15:00 Gwyllt y Glyn **Cyfeiriannu a Cherdded Nordig**

Plas Newydd, Llangollen

Cyflwynwch eich plentyn i fywyd gwyllt eto gyda'n gweithgareddau natur. Y cyfan sydd ei angen yw dillad awyr agored. Rhieni'n aros i chwarae.



Dydd Gwener 2 Awst **19:30-22:00**

A Midsummer Night's Dream

Plas Newydd, Llangollen

Ymunwch â ni am berfformiad awyr agored llawn awyrgylch gan Off The Ground Theatre. Prisiau a thocynnau: Offtheground.co.uk

Dydd Gwener 9 Awst

21:00-22:30

Taith Gerdded Ystlumod

Cyfarfod: Maes parcio Llwybr Prestatyn i Ddyserth, Dyserth LL18 6BS. Ymunwch â ni am daith gerdded o amgylch safleoedd cefn gwlad Dyserth i ddarganfod nifer o wahanol rywogaethau o ystlumod. Dewch â thortsh.



Dydd Llun 12 Awst

21:00-23:00

Meteorynnau yn y Nos

Cyfarfod: Maes parcio Canolfan Hamdden Corwen LL21 9RW
Mwynhewch yr awyr dywyll a sêr gwib ym mryngaer Oes yr Haearn Caer Drewyn. Dewch â thortsh, blanced a diod poeth.



Dydd Mercher 14 Awst

10:00-12:00

Taith Gerdded Fer i Ben y Pigyn

Cyfarfod: Prif faes parcio Corwen
LL21 0DN

Eleni yw canmlwyddiant Eisteddfod yr Heddwch – y gyntaf ar ôl y Rhyfel Mawr. Dewch i weld Meini'r Orsedd a godwyd ar ei chyfer a mwynhau'r goedwig hardd.



Dydd Iau 15 Awst

Sioe Dinbych a Fflint

Dewch i'n gweld ni yn y sioe am weithgareddau, gemau a mwy.

Dydd Sadwrn 17 Awst

11:00-12:00 Helfa Drychfilod

Nantclwyd y Dre. Helfa natur dywysedig o amgylch Gardd yr Arglwydd er mwyn gweld a dysgu am y trychfilod diddorol sy'n byw yma. Addas i bob oedran. Rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn. Wedi'i gynnwys yn y pris mynediad.

Dydd Mawrth 20 Awst

20:30-22:00

Bywyd y Nos yn Loggerheads

Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads. Cyfle i ddysgu am fywyd gwyllt nosol gyda chyflwyniad byr cyn taith gerdded hawdd o filltir gan ddefnyddio teclynnau canfod ystlumod a'r hyn rydym wedi ei ddysgu! Dewch â thorthsh.



Dydd Mawrth 20 Awst

11:00-13:00

Rhwydo yn yr Afon yn Gro Isa

Cyfarfod: Maes parcio Pafiliwn Chwaraeon Corwen. SJ079437 Gwisgwch eich welintons a phaciwch eich picnic. Rydyn ni'n mynd i chwilio am greaduriaid gwych yn Afon Dyfrdwy!




Dydd Sadwrn 24 Awst

11:00-15:00

Hwyl i'r Teulu ym Mhen y Pigyn

Cyfarfod ar y safle; dilynwch yr arwyddion o'r dref. Sylwer: traciau i fyny'r allt mewn coedwig yw'r llwybrau. Ymunwch â ni am ddiwrnod o grefftau a gweithgareddau yn y goedwig ger Meini'r Orsedd. Defnyddiwch esgidiau/bygi priodol.





Dydd Iau 22 Awst

10:30-15:30

Crefftiau Awyr Dywyll

Parc Gwledig Loggerheads

Crefftiau Awyr Dywyll yn yr haf gyda Techniquet yn yr Oriel. Ymunwch â ni am weithgareddau i ddathlu 50 mlwyddiant glanio ar y Lleud a rhan Prydain yn hynny.



Dydd Mercher 4 Medi

19:00-21:00

Y Machlud o'r Fryngaer

Cyfarfod: Maes parcio Llangwyfan 1389 6684

Taith gerdded i fyny drwy Goed Llangwyfan ac i fryngaer Penycloddiau gyda Cheidwad yr AHNE i wyllo'r machlud a gweld bywyd gwyllt y nos. Rhaid archebu lle.



Dydd Gwener 6 Medi

19:30-21:30 Bywyd y Nos ym Maes Llandysilio

Cyfarfod: Maes parcio Rhaeadr y Bedol, Llangollen GR 198433

Ymunwch â ni am daith fer i ddarganfod y sêr a'r bywyd gwyllt nosol yn y lleoliad arbennig hwn.

Dydd Mercher 11 Medi

10:00-12:00 Taith Gerdded Fer

Pentredŵr Cyfarfod: Canolfan

Gymunedol Pentredŵr LL20 8DG

Dewch i ddarganfod chwareli llechi cudd cwm Oernant.



Dydd Iau 12 Medi

19:00-21:00 Gwyllo'r Sêr yng Nghoed Nercwys

Cyfarfod: Coed Nercwys

Cyfeirnod grid SJ 218 593

Dewch draw i'n noson hudol o wyllo'r sêr gyda Techniquet.

Telesgopau ar gael.



Dydd Mawrth 10 Medi

16:00-17:30 Gwyllt y Glyn Adeiladu Lle Cuddio

Plas Newydd, Llangollen. Cyflwynwch eich plentyn i fywyd gwyllt eto gyda'n gweithgareddau natur. Y cyfan sydd ei angen yw dillad awyr agored a welintons. Rhieni'n aros i chwarae.





Wythnos Eithriadol

Mae'r Teulu o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi cydweithio i drefnu rhaglen wythnos o hyd o ddigwyddiadau i helpu pobl i fwynhau a chael eu hysbrydoli gan Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Prydain

Dynodwyd Bryniau Clwyd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn 1985 dan Ddeddf Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i warchod harddwch naturiol rhai o'n hardaloedd gorau a mwyaf poblogaidd.

Eleni, mae hi'n 70 mlwyddiant y Ddeddf, felly hwn yw'r cyfle perffaith i chi ddathlu'r AHNE.

Dydd Sadwrn 21 Medi

10:00-13:00

Gofalu am Blanhigion Tocio

Plas Newydd, Llangollen, LL20 8AW
Dysgwch am yr offer a'r technegau sy'n cael eu defnyddio i ofalu am blanhigion tocio. Isafswm oed: 16.

Dydd Mawrth 24 Medi

10:00-16:00

Cerdded gyda Swyddog yr AHNE Howard Sutcliffe

Cyfarfod: y tu allan i'r Ganolfan Groeso, Heol y Castell, Llangollen Cyfeirnod grid 215421 Taith gerdded 9.5 milltir o hyd yn crwydro Dyffryn Llangollen gan ymweld â Gwarchodfa Natur Coed Cadw, Pen y Coed.



Dydd Sul 22 Medi

10:00 Loggerheads i Gilcain

Cyfarfod: yng Nghanolfan Wybodaeth Parc Gwledig Loggerheads. Taith dywys yn y bore o Loggerheads i Gilcain gyda Phrif Weithredwr Cymdeithas Cerddwyr Cymru (Ramblers). Gallwch archebu.



Dydd Iau 26 Medi 10:00-16:00

Cerdded gyda Swyddog yr AHNE Howard Sutcliffe Taith y Rhostir

Cyfarfod: yn y gilfan ar y ffordd rostir fechan uwch ben Pen Draw'r Byd GR223483. Taith gerdded 10 milltir o hyd yn ymweld â Phen Draw'r Byd ac adfail y Cloc wedi Rhewi ar Fynydd Rhiwabon.




Wythnos Eithriadol 21-29 Medi 2019#wythnoseithriadol

www.landscapesforlifeevents.org.uk

#outstandingweek



Dathlu ein Safle Treftadaeth Y Byd



Eleni rydym yn dathlu deng mlynedd ers i Draphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte dderbyn Statws Treftadaeth y Byd fel campwaith o beirianeg dyfrffyrdd ac enghraifft arloesol o adeiladwaith haearn. Ar 27 Mehefin 2009, ymunodd y draphont ddŵr 200 oed, a adeiladwyd gan y peirianwyr camlas Thomas Telford a William Jessop, â chlwb elitaidd o 1,000 o Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO sy'n cynnwys adeileddau eiconig megis Côr y Cewri a'r Pyramidiau. Dros y flwyddyn nesaf, bydd amryw o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ar hyd y Safle Treftadaeth y Byd sy'n ymestyn am 11 milltir a bydd manylion am y digwyddiadau a gwybodaeth bellach am y safle ar gael ar wefan

<https://www.pontcysyllte-aqueduct.co.uk/cy>



Dydd Sadwrn 31 Awst - dydd
Sul 1 Medi

Gŵyl Gerdded Corwen

Dewch i Gorwen am amrywiaeth
wych o deithiau cerdded i bawb.
Facebook: Gŵyl Gerdded Corwen
Twitter: @corwenwalks
[https://cymraeg.
corwenwalkingfestival.co.uk](https://cymraeg.corwenwalkingfestival.co.uk)

Dydd Gwener 20 Medi
10.30-12:00

Taith Gerdded Nordig y Warchodfa Natur a Glan yr Afon

Cyfarfod: Gwarchodfa Natur
Rhuddlan LL18 5UA
Dewch draw i ymuno â ni am daith
gerdded o amgylch Gwarchodfa
Natur Rhuddlan ac ar hyd Afon
Clwyd. Cewch weld golygfeydd
ysblennydd a'r bywyd gwylt sydd
yn y Rhyl.



Medi-Hydfref Llwybr yr Hydref ym Mhlas Newydd, Llangollen

Crwydrwch y gerddi trwy chwilio
am ddeunyddiau i greu darlun
hydrefol. £2.50 y pen.



Dydd Mawrth 8 Hydref

16:00-17:30

Gwylt y Glyn Dotio at y Dail

Plas Newydd, Llangollen
Cyflwynwch eich plentyn i fywyd
gwylt eto gyda'n gweithgareddau
natur. Y cyfan sydd ei angen yw
dillad awyr agored a welintons.
Rhieni'n aros i chwarae.



Dydd Mercher 9 Hydref 10:00-14:00 Taith Gerdded i Ddarganfod Creigiau Trefor

Cyfarfod: gwaelod y dramffordd,
ar hyd y llwybr Panorama, ger
Creigiau Trefor.

Cyfeirnod grid SJ23314317
Ymunwch â daearegwr i ddysgu
beth sydd o dan ein traed a beth
sy'n creu tirwedd unigryw'r AHNE.
Dewch â bocs bwyd. Gall gynnwys
mynd heibio Castell Dinas Brân.
Rhaid archebu lle.



Dydd Mercher 16 Hydref

10:00-12:00

Taith Gerdded Fer Dôl Fawr

Cyfarfod: Cilfan troeau Berwyn ar yr A5 tua'r dwyrain. SJ185433
Mwynhewch y golygfeydd a dysgwch am y ddaear o amgylch y rhan arbennig hon o Afon Dyfrdwy.



Dydd Iau 24 Hydref

10:00-14:00

Am Dro yn yr Hydref

Cyfarfod: Parc Gwledig
Loggerheads

Cylchdaith hydrefol 6 milltir o hyd i fwynhau arddangosfa anhygoel natur o liwiau gwych a golygfeydd hardd.



26 Hydref - 3 Tachwedd

Llwybr Calan Gaeaf

Parc Gwledig Loggerheads

Cwblhewch y llwybr Calan Gaeaf o amgylch y parc i ennill gwobr. £2.50 y plentyn, dim angen archebu.

Hydref

**Blas Gogledd-ddwyrain Cymru
Mwynhau, Profi, Bwyta**

Mis o weithgareddau wedi'u harwain gan gynhyrchwyr bwyd, busnesau lletygarwch a gwerthwyr bwyd yn arddangos bwyd lleol gorau Gogledd-ddwyrain Cymru. Mae'n cynnwys teithiau cynhyrchu, arddangosiadau, digwyddiadau blasu, gweithdai, dosbarthiadau meistr, llwybrau bwyd.

Cysylltwch â taste.blas@gmail.com

Dydd Mercher 30 Hydref

18:00-20:00

Gwyllo'r Sêr wrth Dŵr y Jiwbilî

Cyfarfod: Maes Parcio Bwlch Penbarras.

Noson o wyllo'r sêr gydag arbenigwyr o Techniquet ar gopa Moel Famau. Bydd telesgopau ar gael. Dewch â thortsh ar gyfer y daith a mat i orwedd arno.



**Dydd Sadwrn 26 Hydref - dydd
Gwener 1 Tachwedd
10:00-16:00 Wythnos Calan
Gaeaf yn y Carchar**

Carchar Rhuthun. Wythnos o hwyl Calan Gaeaf yng Ngharchar Rhuthun. Gwisgwch eich gwisg frawychus orau ac ymunwch â ni am gelf a chreffft llawn hwyl a gweithgareddau i'r teulu oll. Addas i bob oedran. Wedi'i gynnwys yn y pris mynediad.

**26 Hydref - 3 Tachwedd
Llwybr Calan Gaeaf ym Mhlas
Newydd**

Mwynhewch y llwybr hydrefol a gweithgareddau dychrynlyd yn y caffi.

**Dydd Gwener 1 Tachwedd
13:00-15:00 Cerdded yn Olion
Traed Ladis Llangollen**

Cyfarfod ym Mhlas Newydd, Llangollen. Cafodd y llwybr 3 milltir hwn trwy goedwig Pen y Coed a Dyffryn Pengwern ei ddisgrifio gan y Ladis fel "a most delicious walk". Rhai llethrau a gall fod yn gorsiog mewn mannau.

**Dydd Mercher 13 Tachwedd
10:00-12:00
Taith Gerdded Fer Chwarel y
Mwynglawdd**

Cyfarfod: Maes parcio'r chwarel SJ25 9520. Crwydrwch drwy chwarel anhygoel y Mwynglawdd, a agorwyd i'r cyhoedd yn ddiweddar gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

**Dydd Sadwrn 16 Tachwedd
11:00-16:00
Sioe Planetariwm Awyr Dywyll
Loggerheads**

Sgwrs ddiddorol am seryddiaeth gan arbenigwyr o Techniquet mewn Planetariwm. Dysgwch am y clystyrau o sêr a'r mythau y tu ôl iddyn nhw. Tair sesiwn ar gael. Archebwch yn fuan – mae'r sesiynau'n boblogaidd iawn.



**Dydd Llun 18 Tachwedd
10:00-13:00 Llwybr Milltiroedd
Cymunedol Llandegla**

Cyfarfod: tu allan i siop gymunedol Llandegla GR196524
Taith dywys. 5 milltir yn crwydro'r creigiau calchfaen ac Afon Alun rhwng Llandegla a Llanarmon.



Dydd Mercher 4 Rhagfyr
09:00-15:00
Y Gystadleuaeth Plygu
Gwrych Flynyddol i
Wirfoddolwyr

Ffoniwch am wybodaeth.

Mae plygu gwrych yn grefft draddodiadol bwysig i adfywio gwrychoedd, sef un o'n cynefinoedd pwysicaf.

Ymunwch â ni fel rhan o dîm i blygu darn o wrych. Rhaid archebu lle. Isafswm oed: 17.

Rhif ffôn: 01824 712757



Dydd Gwener 13 - dydd Sul 15
Rhagfyr

Nadolig ym Mhlas Newydd,
Llangollen

Ymunwch â ni am hwyl Nadoligaidd traddodiadol dan oleuadau Plas Newydd. Ewch i www.plasnewyddllangollen.co.uk am fanylion.



Gwirfoddoli



**Casglwch eich Rhaglen
Wirfoddoli heddiw yng
Nghanolfan Ymwelwyr
Loggerheads**

Mae cyfleoedd trwy gydol y flwyddyn i wirfoddoli ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a chefn gwlad Sir Ddinbych i bob oedran. Mae tasgau'n amrywiol o adeiladu waliau cerrig sych i greu cynefinoedd bywyd gwyllt. Dewch draw i un o'n digwyddiadau i ddysgu sgil newydd.

Am fwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn eich ardal edrychwch ar:



Cerddwch, Teimlwch y Gwahaniaeth

Iach, Heini, Hapus Beth am ymuno ag un o'n teithiau cerdded rheolaidd? Mae rhaglen ehangach o deithiau cerdded iechyd wythnosol ar gael hefyd sy'n para rhwng 30 munud a 3 awr. Ffoniwch 01824 708396 am fwy o fanylion neu lawrlwythwch yr amserlen o http://www.denbighshirecountryside.org.uk/lets_walk/





Friends of the
Clwydian Range
and Dee Valley

Cyfeillion
Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy



Dewch yn Gyfaill

Os ydych yn caru Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy neu os hoffech ddarganfod mwy am yr ardal a'i chadw'n ddiogel, ymunwch â Chyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy – rydym yn helpu pobl i fwynhau, canfod a dysgu am y dirwedd arbennig hon.



Criw Cefn Gwlad Mae

Criw Cefn Gwlad yn berffaith ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 18 oed sydd am ddysgu mwy am y dirwedd anhygoel sydd ar garreg eu drws ac sy'n poeni dim am faeddu eu dwylo wrth weithio ac archwilio yn yr awyr agored.

Am ragor o wybodaeth ewch i
www.friends.cymru neu
ebostiwch hello@friends.cymru

Natur er budd lechyd

Ydych chi'n dymuno bod yn weithgar a dysgu sgiliau newydd yn 2019?



Pwrpas y prosiect Natur er budd lechyd yw mynd allan i fwynhau byd natur er lles iechyd eich corff a'ch meddwl. Dewch draw i un o'n gweithgareddau wythnosol boed yn daith gerdded, cadwraeth ymarferol neu weithdy celf a chrefft; mae cymaint o bethau i gymryd rhan ynddyn nhw!

Mae ein sesiynau cerdded wythnosol neu sesiynau cefn gwlad yn cael eu cynnal am ddim yn y Rhyl, Prestatyn, Llangollen a Chorwen, felly mae digon o ddewis.

Chwiliwch am eich sesiwn weithgareddau wythnosol leol isod ac ymunwch â ni.

Lleoliad		Amser
Y Rhyl	Dydd Mawrth	10am
Llangollen	Dydd Mawrth	10am
	Dydd Mercher	10am
Corwen	Dydd Mercher	1pm
	Dydd Iau	10am
Prestatyn	Dydd Iau	10am

Darganfyddwch fwy ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol drwy ddilyn new hofl! Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfodwy, neu fe allwch chi-gysylltu â Claudia ar 07887 655166 neu Ellie ar 07918 224784.



Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaeth Tai Sir Ddinbych i ddarparu'r prosiect, gyda chefnogaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Phrifysgol Bangor. Bydd y prosiect peilot 18 mis hwn yn rhedeg yn y Rhyl, Prestatyn, Llangollen a Chorwen.

Parc Gwledig Loggerheads

Porth i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Mae canol yr
wythnos yn
amser tawel braf i
wneud y gorau o'n
cyfleusterau

Mae ein Parc Gwledig yng nghanol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy sy'n un o wyth tirlun a warchodir yng Nghymru. Mae'n lleoliad perffaith i ddianc a darganfod cefn gwlad ar ei orau.

Ydych chi'n chwilfrydig? Dewch i ddysgu am hanes Loggerheads ac am darddiad yr enw. Dewch i edmygu harddwch y clogwyni calchfaen rhyfeddol neu dewch i archwilio'r coetiroedd yng Nghoedwigoedd Dyffryn Alyn sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

Ydych chi erioed wedi bod yn Loggerheads? Galwch heibio i'r Ganolfan Ymwelwyr lle gall ein tîm cyfeillgar roi cyngor i chi ar sut i fanteisio'n llawn ar eich ymweliad.

Mae amrywiaeth o fapiau, llyfrynau a thafenni gwybodaeth ar gael yn y Ganolfan Ymwelwyr. Yn ogystal ag anrhegion, mae'r Ganolfan Ymwelwyr hefyd yn gwerthu cynnyrch bwyd Cymreig lleol a gallwch eu defnyddio i greu basged ddanteithion ar gyfer unrhyw achlysur arbennig. Mae ganddyn nhw hefyd amrywiaeth o hetiau a menig cynnes ar gyfer tywydd anrhagweladwy.

Mae Loggerheads yn lle i bob tymor.



Ar agor pob dydd

10:00 – 16:00 Hydref – Mawrth

10:00 – 17:00 Ebrill – Hydref

ffôn 01824 712757

Atyniadau treftadaeth Sir Ddinbych



Carchar Rhuthun *Rhuthun*



Amgueddfa Carchar Fictoraidd

Crwydrwch drwy gelloedd y carchar Fictoraidd ar ddul Pentonville a dyggu am y carcharoddi a oedd ynal Gwethgaroddi ar gael i bob oed

Ar agor o 1 Ebrill - 30 Medi

6 diwrnod yr wythnos 10am-5pm. Ar gau ar ddyddiau Mawrth.

www.carcharrhuthun.co.uk



Plas Newydd *Llangollen*

Tŷ hanesyddol, gerddi a chaffi

Dewch i ymweld â threflet diddonol "Llais Llangollen" yn y gerddi hanesyddol yng ngolwg harddwch Castell Dinas Iwan

Ar agor bob dydd, 1 Ebrill - 31 Hydref

www.plasnewyddllangollen.co.uk



Nantclwyd y Dre *Rhuthun*



Tŷ ffrâm bren a gardd
â wal o'r chwmpas o'r 15fed ganrif


Crwydrwch drwy un o dai traf hysgol Cymru
a'r gerddi wedi'u nodfwr yng nghaisot traf hanesyddol Rhuthun

Ar agor 6 Ebrill - 29 Medi

Amseroedd a diwrnodau agor yn amrywio. Ffwrch i'n gwefan

www.nantclwydydre.co.uk





Wrecsam
Wrexham

Rhuwabon
Ruabon

Cefn-Mawr

Y Waun
Chirk

A559

Pontcysyllte
Pontcysyllte
World Heritage Site

Llangollen
Plas Newydd

Pontfadog

Glyn Ceiriog

A5104

A583

Bwlchgwyrn

Coedpoeth

Rhoelamerchrugog

Rhewl

Bryneglwys

Gwyddelwern

Carrog

Glyndyfrdwy

Cynwyd

Corwen

Bala

A5

A494

Rhuthun
Ruthin

Nant Clwyd
y Dre
Clwyd
Ruthin Gaol

Manfair Dyfryn
Clwyd

Graigferrian

Pentra-celyn

Llandegla

Manarmon-yn-Iâl

Eryrys

Dyfryn Clwyd